RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 25 Tachwedd 2020 am 5.00 pm.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Adams | Y Cynghorydd R Bevan |
| Y Cynghorydd H Boggis | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd A Calvert | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd A Chapman | Y Cynghorydd A Cox |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd J Cullwick |
| Y Cynghorydd G Davies | Y Cynghorydd J Davies |
| Y Cynghorydd L De Vet | Y Cynghorydd M Diamond |
| Y Cynghorydd J Edwards | Y Cynghorydd J Elliott |
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd S.Evans |
| Y Cynghorydd M Forey | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd H Fychan | Y Cynghorydd E George |
| Y Cynghorydd E Griffiths | Y Cynghorydd M Griffiths |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd G Hopkins |
| Y Cynghorydd P Howe | Y Cynghorydd G Hughes |
| Y Cynghorydd J James | Y Cynghorydd P Jarman |
| Y Cynghorydd G Jones | Y Cynghorydd K Jones |
| Y Cynghorydd L Jones | Y Cynghorydd W Jones |
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd A Morgan |
| Y Cynghorydd K Morgan | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd Owen-Jones |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd S Pickering |
| Y Cynghorydd M Powell | Y Cynghorydd S Powell |
| Y Cynghorydd S. Rees-Owen | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd J Rosser |
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd E Stephens |
| Y Cynghorydd G Thomas | Y Cynghorydd W Treeby |
| Y Cynghorydd L Walker | Y Cynghorydd M Weaver |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd E Webster |
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd J Williams |
| Y Cynghorydd T Williams | Y Cynghorydd R Yeo |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**52 Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriad o absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Belzak, A Davies-Jones, M Fidler Jones, D Grehan, J Harries, L Hooper, M Tegg, R K Turner, G Williams a C Willis.

**53 Croeso a Chyflwyniadau**

Cafodd cyflwyniadau eu gwneud gan Arweinwyr y Grwpiau a oedd yn bresennol:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan (Grŵp Llafur)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell (Grŵp Annibynnol)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James (Grŵp Ceidwadol)

**54 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

**Eitem 8 - ARIANNU RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF TRWY DDEFNYDDIO AMODAU BENTHYCA DARBODUS (PRUDENTIAL BORROWING)**

- Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman at y gollyngiad a roddwyd gan y Pwyllgor Safonau ar 29 Tachwedd 2019 gan ddarparu "gollyngiad i'r aelod siarad a phleidleisio ar bob mater trwy gydol y broses pennu Cyllideb 2020-21, a'i mabwysiadu, yn rhinwedd ei swydd yn Arweinydd yr Wrthblaid."

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees - Buddiant personol - "Rwy'n Llywodraethwr ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr"

**Eitem 6 ar yr Agenda -** Diweddariad Mewn Perthynas â'r Coronafeirws yn Rhondda Cynon Taf

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis - Buddiant Personol - "Mae gen i berthynas agos sy'n gweithio'n rhan o Garfan Brechu Iechyd Cyhoeddus Cymru"

**55 Cyhoeddiadau**

- Talodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman deyrnged i Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Hobson a oedd wedi cynrychioli ardal Ffynnon Taf yn ei rôl fel Cynghorydd. Roedd y Cynghorydd Hobson yn Aelod ymroddgar o'r Cyngor ac hefyd wedi gwasanaethu'n Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwella'r Amgylchedd o 1999, ac roedd yn rhan allweddol o'r gwaith i gau Tomen Nantygwyddon. Cafodd y trefniadau ar gyfer angladd

y Cynghorydd Hobson eu rhannu ag Aelodau.

- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T Leyshon wedi atgoffa Aelodau y bydd Apêl Siôn Corn RhCT yn cau am 4pm, 27 Rhagfyr, gan annog Aelodau i gymryd rhan ar wefan RhCT neu drwy ffonio a chafodd y manylion eu rhannu ag Aelodau.

Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D R Bevan fod y Cyngor wedi cael ei gydnabod yn rhan o seremoni ar-lein y wobr rhagoriaeth cynllunio am ei waith mewn perthynas â datblygiad Llys Cadwyn ym Mhontypridd, roedd hyn yn newyddion da iawn i'r Awdurdod Lleol.

**56 Atal Rheolau Gweithdrefn y Cyngor 15.1**

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd ddatganiad mewn perthynas ag atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor. Nododd, er mwyn ei gwneud yn haws cynnal y cyfarfod dros Zoom, fod Arweinwyr y Grwpiau wedi cytuno ymlaen llaw, lle y bydd pleidlais, bydd Arweinydd y Grŵp yn pleidleisio ar ran holl aelodau'r grŵp ar yr eitem.

Er mwyn rhoi'r gweithdrefnau diwygiedig ar waith, cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor

**57 Presenoldeb y Grwpiau Gwleidyddol**

Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu manylion ynglŷn â niferoedd a oedd yn bresennol ar gyfer pob un o'r Grwpiau Gwleidyddol fel a ganlyn: -

Grŵp Llafur - 42 aelod
Grŵp Plaid Cymru - 16 aelod
Grŵp Ceidwadol - 1 aelod
Grŵp Annibynnol RhCT - 7 aelod

**58 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2020, yn rhai cywir.

**59 Cwestiynau gan yr Aelodau**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

A wnaiff Arweinydd y Cyngor ddatganiad mewn perthynas â'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu rhanbarthol?

**Ymateb yr Arweinydd:**

Dywedodd yr Arweinydd fod y Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu Rhanbarthol yn fenter ranbarthol lwyddiannus rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant y Cyngor yw Is-gadeirydd y Bwrdd. Ychwanegodd yr Arweinydd fod proses recriwtio ychwanegol wedi cael ei chynnal i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni'i dargedau fel sydd wedi digwydd trwy gydol y Pandemig. Dyma'r gwasanaeth gorau yng Nghymru o ran y canran o bobl y mae'r gwasanaeth yn cysylltu â nhw.

Dywedodd yr Arweinydd fod y gwasanaeth yn hollbwysig wrth gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau penodol, mae hyn yn llywio gwaith y carfanau gorfodi. Talodd yr Arweinydd deyrnged i waith caled staff y cyngor sydd wedi'u hadleoli a'r staff ychwanegol newydd eu recriwtio sy'n gweithio oriau hir i gynnal safonau uchel y gwasanaeth.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees**:

A wnaiff yr Arweinydd rannu manylion ynglŷn â pha mor llwyddiannus yw'r gwasanaeth yng Nghymru o'i gymharu â'r gwasanaeth sydd ar gael yn Lloegr?

**Ymateb gan yr Arweinydd:**

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod ffigurau Cymru gyfan yn llawer gwell na ffigurau Lloegr ar y cyfan. Mae'r ffigurau fel a ganlyn: -

- Cwm Taf -98% o achosion wedi'u cadarnhau, cysylltwyd ag 87% o gysylltiadau'r unigolyn
- Cymru gyfan -92% o achosion wedi'u cadarnhau, cysylltwyd ag 82% o gysylltiadau'r unigolyn

Ychwanegodd yr Arweinydd, er bod y lefelau cyflawni wedi gwella yn ddiweddar yn Lloegr, mae gwahaniaeth amlwg o hyd rhwng lefelau cyflawni Cymru a Lloegr. Roedd yr Arweinydd wedi nodi bod llwyddiant y gwaith yng Nghwm Taf wedi deillio o wybodaeth leol a'r cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r bwrdd iechyd lleol, mae gan y sector cyhoeddus brofiad o sefydlu gwaith tebyg, er bod hynny ar raddfa lai.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Pickering i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

All yr Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â gwaith atgyweirio ledled y Sir yn dilyn Storm Dennis?

**Ymateb yr Arweinydd:**

Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ystod yr wythnosau nesaf a fydd yn rhoi diweddariad ar gynnydd y gwaith atgyweirio yn dilyn Storm Dennis. Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod yn falch o gadarnhau bod y mwyafrif o gynlluniau bellach ar y safle yn cyflawni gwaith neu wedi cyrraedd y cam dylunio, er bod Covid wedi rhwystro rhywfaint o waith trwsio ac wedi atal mynediad a gan fod rhai cwmnïau wedi gorfod cynnwys rhai staff yn y cynllun ffyrlo. Daeth yr Arweinydd i ben drwy nodi bod nifer sylweddol o geisiadau eisoes wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a bydd yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno cais am fwy na £4miliwn ar gyfer cynlluniau lliniaru llifogydd pellach.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Pickering**:

Allwch chi hefyd roi'r newyddion diweddaraf i mi mewn perthynas â chynnydd y cynlluniau sy'n cael eu cyflawni yn fy ward i, sef Ynys-y-bwl.

**Ymateb yr Arweinydd:**

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod cynnydd da wedi'i wneud mewn perthynas â gwaith cyfalaf cyffredinol, sydd ddim yn gysylltiedig â'r waliau cynnal sy'n rhedeg o ardal Glyn-coch hyd at Ynys-y-bwl (y wal ar yr ochr chwith) a'r bont droed ar ffordd Hawliau Tramwy Cyhoeddus, YC72. O ran y gwaith atgyweirio sy'n ymwneud â'r llifogydd, mae carfan Eiddo'r Cyngor wedi bod yn mynd i'r afael â'r bont droed ar Heol y Gelli sy'n arwain tuag at Bwll Glo Lady Windsor, gan gynnwys y geuffos yn y lleoliad yma. Dywedodd yr Arweinydd fod ymchwiliadau mewn perthynas â Theras Clydach yn parhau a bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal gwaith carthu yn yr afon ac wedi symud malurion ac wedi adeiladu wal gerrig yr afon. Redstart, sef un o bartneriaid y Cyngor, sy'n gyfrifol am ddylunio cynllun ceuffosydd Heol y Felin a bydd yn cael ei gynnwys yn rhan o'r cais i Lywodraeth Cymru. Bydd y bont droed ar lwybr FP72, sy'n cynnwys gwaith ar y parapet, mynediad i'r llwybr a gwaith trwsio'r rheilffordd hefyd yn cael ei hystyried yn rhan o waith y flwyddyn nesaf. Daeth i ben drwy nodi y bydd pont newydd yn disodli pont droed Maes-y-ffynnon a bydd y gwaith mewn perthynas â'r cynllun yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Stacey i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:**

Sut mae'r Cyngor hwn yn cefnogi swyddi yn Rhondda Cynon Taf yn ystod Pandemig Covid 19?

**Ymateb y Dirprwy Arweinydd:**

Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd fod yna nifer o raglenni sy'n darparu cyflogaeth, cefnogaeth a chymorth uniongyrchol i drigolion lleol. Ychwanegodd fod y pandemig byd-eang wedi cael effaith enfawr ar lawer o drigolion boed hynny o ganlyniad i golli swyddi neu'r cynllun ffyrlo. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod y Cyngor wedi hysbysebu 10 swydd pellach yn ddiweddar gyda 6 Phrentisiaeth a 4 swydd i Raddedigion, mae hynny ar ben ei raglen recriwtio flynyddol, sydd wedi recriwtio 21 o Raddedigion a 26 o brentisiaid mewn 3 cham yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 25 o Raddedigion a 32 o brentisiaid.

Esboniodd y Dirprwy Arweinydd fod hyn wedi caniatáu i'r Cyngor gefnogi'r economi leol trwy ddarparu swyddi â chyflog da a meithrin cydnerthedd o fewn y Cyngor. Mae cynlluniau hyfforddi 'Camu i'r Cyfeiriad Cywir' a 'Gofal i Waith' wedi parhau ac mae 5 unigolyn wedi'u recriwtio ar gyfer lleoliadau ym meysydd Gofal Cymdeithasol, TGCh a'r Parciau. Cafwyd 32 o atgyfeiriadau hefyd ar gyfer y Cynllun 'Gofal i Waith' yn yr un cyfnod. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod staff yn parhau i ddarparu nifer o raglenni cyflogaeth eraill i ystod o unigolion gan gynnig cefnogaeth ar ffurf sesiynau rhithwir 1-1 lle bo hynny'n bosibl.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Stacey:**

Mae'r pandemig wedi effeithio ar les gweithwyr, a wnewch chi ddatganiad ar y rhaglen 'Cadw'n Iach yn y Gwaith' gan amlinellu sut mae'r rhaglen wedi helpu busnesau a gweithluoedd trwy gydol y pandemig?

**Ymateb y Dirprwy Arweinydd:**

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod y cynllun 'Cadw'n Iach yn y Gwaith' yn cael ei arwain gan y Cyngor a'i fod yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru. Mae'n rhoi mynediad cyflym ac uniongyrchol i gymorth arbenigol, a hynny am ddim ar gyfer busnesau a'u gweithwyr. Mae'r cynllun yn cynnig cymorth busnes a chymorth AD yn ogystal ag ymyraethau iechyd galwedigaethol a chlinigol penodol, megis ffisiotherapi a hyfforddi ac mae'n bosibl y bydd hyn yn galluogi pobl i aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith.  Mae'r gwasanaeth hwn wedi parhau i gefnogi busnesau bach a maint canolig ledled y fwrdeistref sirol. Daeth y Dirprwy Arweinydd i ben drwy nodi bod y cynllun wedi'i addasu i alluogi gwasanaeth di-dor trwy gydol y pandemig.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:**

Pa staff y Cyngor sy'n cyfrif fel Gweithwyr Allweddol?

**Ymateb y Dirprwy Arweinydd:**

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cynnal ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 23 Hydref ac roedd Arweinwyr o bob rhan o Gymru a phob barn wleidyddol wedi canmol gweithluoedd y Cyngor. Roedd Arweinydd Cyngor RhCT ac Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi arwain y gefnogaeth gan nodi y 'bydd gwaith allweddol staff y Cyngor ar y cyd â'n partneriaid yn parhau i'n tywys ni drwy'r cyfnodau anodd yma'.

Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd mai'r staff yw asedau gorau'r Cyngor ac mae'r Cyngor yn ddiolchgar am eu hymrwymiad a'u hymdrechion i gefnogi'r cymunedau RhCT. Mae rhai meysydd sy'n darparu Gwasanaethau Rheng Flaen hanfodol ac sy'n galw am statws gweithiwr allweddol, ac mae eu cyfraniad parhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'r cyngor yn parhau i gael eu cynnig. Yn ystod y cyfnod anodd a heb ei debyg yma ac yn seiliedig ar y disgrifiad hwnnw, dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod gweithwyr allweddol yn cynnwys: -

- Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Staff sy'n gweithio mewn ysgolion gan gynnwys athrawon a staff cymorth.
- Meysydd gwasanaeth rheng flaen sy'n gofyn am barhad busnes fel gofal y strydoedd, gofal plant a glanhau.
- Staff sy'n prosesu a darparu rhaglenni Cymorth i Fusnesau ac sy'n helpu i gynnal yr economi ac yn chwarae rhan allweddol wrth gynnal y gwasanaeth.
- Staff y gwasanaeth hamdden sydd wedi cael eu hadleoli i gefnogi'r bobl sydd fwyaf agored i niwed wrth ddarparu pecynnau bwyd.

I gloi, ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd fod modd diffinio pob aelod o staff fel gweithiwr allweddol a dylai'r weinyddiaeth yma gydnabod hynny.

**Cwestiwn Ategol gan y Cynghorydd P Jarman:**

Dywedodd y Cynghorydd Jarman fod Aelodau wedi cael gwybod mewn e-bost ar 2 Hydref am y llinell trefnu apwyntiad ar gyfer prawf Covid-19 a gafodd ei sefydlu ar gyfer gweithwyr allweddol a'u teuluoedd yn rhan o Uned Iechyd Galwedigaethol a Lles y Cyngor. Diffiniad gweithiwr allweddol yw gweithwyr mewn lleoliad addysg, lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys plant neu oedolion sy'n aros am leoliad, ond mae hefyd yn cynnwys staff sy'n gweithio mewn 'meysydd sy'n gofyn am barhad busnes'. Roedd y Cynghorydd Jarman wedi gofyn pa gategorïau y mae modd eu disgrifio fel meysydd allweddol yn unol â'r disgrifiad hwnnw, ond ni chafodd ymateb. Ychwanegodd y Cynghorydd Jarman fod neges bellach wedi cael ei rhannu â staff ar 9 Hydref gan nodi unwaith eto 'meysydd sy'n gofyn am barhad busnes'. Ychwanegodd na chafodd hi ymateb i'w neges e-bost dilynol yn gofyn am eglurhad.

Gofynnodd y Cynghorydd Jarman i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Adnoddau Dynol am ymateb i'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn yr e-byst.

**Ymateb y Cynghorydd M Webber:**

Gofynnodd y Cynghorydd Webber fod y Cynghorydd Jarman yn anfon ei negeseuon e-bost ymlaen ati hi i sicrhau ei bod hi'n cael ymateb.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Jones i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol, D R Bevan:**

A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet nodi pa gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau yn RhCT yn ystod pandemig y coronafeirws?

**Ymateb gan y Cynghorydd D R Bevan:**

Dywedodd y Cynghorydd Bevan fod swyddogion y Cyngor wedi bod yn gweithio'n agos â busnesau lleol i gynnig cefnogaeth mewn perthynas â'r llu o fesurau sydd wedi cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Maent yn cynnig cymorth a chyngor mewn perthynas â'r cymorth grantiau sydd ar gael o ganlyniad i Covid. O ran cymorth mewn perthynas ag Ardrethi Annomestig, nododd y Cynghorydd Bevan fod y Cyngor wedi darparu bron i £44miliwn o gyllid i 3,759 o fusnesau ac mae'r rheiny nad oedd yn gymwys wedi'u cyfeirio at gymorth arall. Yn ddiweddar, cyhoeddodd LlC grant y cyfnod atal byr, derbyniodd Cyngor RhCT 2,000 o geisiadau gwerth £5.6miliwn. Roedd grant cychwyn busnes hefyd ar gael gan LC, derbyniodd 50 ymgeisydd £ 130,000 yr un. Dywedodd y Cynghorydd Bevan fod gan y Cyngor raglenni cymorth eraill sydd ar gael megis y Grant Cynnal Canol Trefi a Grant Gwella Eiddo Pontypridd ac mae hyn wedi arwain at sicrhau bod cyllid gwerth £300,000 ar gael. Mae'r Cyngor wedi sefydlu tri chynllun newydd arall, Grant Adfer Canol Trefi Covid-19, Cronfa Buddsoddi mewn Prosiectau Mawr a'r Grant Gwrthsefyll Llifogydd a gyflwynwyd i'r Cabinet yn ddiweddar. "

## 60 Rhaglen Waith Y Cyngor 2020-21

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod i'r Cyngor y bydd Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd yn dod i gyfarfod nesaf y Cyngor ar 16 Rhagfyr 2020 a bydd manylion ynglŷn â'r Setliad Llywodraeth Leol, yr oedd disgwyl iddyn nhw gael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf yn cael eu rhannu ag Aelodau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau gwahanol nes ymlaen, ar ôl i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi.

Roedd Cyfarwyddwr Gwasanaeth wedi atgoffa'r Cyngor y bydd angen trafod argymhellion y Pwyllgor Penodiadau a bydd angen i'r Cyngor gymeradwyo'r penderfyniadau hynny yn ystod y cyfarfod ar 20 Tachwedd 2020.

## 61 DIWEDDARIAD MEWN PERTHYNAS Â'R CORONAFEIRWS YN RHONDDA CYNON TAF

Dywedodd yr Arweinydd fod nifer yr achosion positif o'r Coronafeirws wedi gostwng ers y Cyfnod Atal Byr. Mae'r ffigurau wedi bod yn uwch na 250-300 achos bob dydd, ond mae'r niferoedd wedi gostwng i oddeutu 100 achos bob dydd, mae'r gyfradd o achosion positif wedi gostwng o 30% i 15%. Roedd yr Arweinydd wedi rhybuddio na ddylen ni fod yn hunanfodlon ac er bod y Cyfnod Atal Byr wedi arwain at rywfaint o welliant, mae trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod y gostyngiad yma wedi dechrau arafu. Cyfeiriodd yr Arweinydd at gyhoeddiad diweddar y pedair gwlad mewn perthynas â llacio'r cyfyngiadau sydd ar waith dros gyfnod y Nadolig, ond gyda rhagor gyfyngiadau yn ystod y cyfnod sy'n arwain at gyfnod y Nadolig.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai dull cydweithio yn cael ei fabwysiadu er mwyn sefydlu canolfannau brechu a bydd Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor yn cefnogi'r trefniadau yma. Cafodd ardal Cwm Cynon ei nodi fel ardal ar gyfer y cynllun profi torfol, ond byddai rhagor o fanylion yn cael eu rhannu yn y diweddariad nesaf gan y Cyngor ymhen pythefnos.

Rhoddwyd cyfle i'r Arweinwyr Grŵp ofyn cwestiynau

**Y Cynghorydd P Jarman - Arweinydd Grŵp Plaid Cymru**

Roedd y Cynghorydd Jarman yn cefnogi'r gwaith profi torfol gan ystyried y nifer fawr o achosion positif dydd ar ôl dydd yn ardal Cwm Cynon, gofynnodd a oes modd dal Covid ail dro?

Cododd y Cynghorydd Jarman ymholiad mewn perthynas ag a oes modd i deuluoedd y preswylwyr fynd i'r cartref gofal gan ddefnyddio podiau i ymwelwyr?

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod ymweliadau diwedd oes wedi cael eu cynnal trwy gydol y pandemig ac mae Swyddogion Gofal Cymdeithasol yn cynnal trafodaethau gyda'r Cartrefi Gofal Preifat ynghylch caniatáu cyfleoedd i gynnal ymweliadau ac amser i'r teulu ond ni ellir llacio mesurau yn rhy gyflym rhag ofn y bydd achos positif yn y cartrefi gofal.

**Y Cynghorydd M Powell - Arweinydd Grŵp, Grŵp Annibynnol RhCT**

Dywedodd y Cynghorydd Powell fod y brechlyn yn allweddol er mwyn gwneud cynnydd a gwella'r sefyllfa bresennol ond mae sut mae'r brechlyn yn cael ei gyflwyno yn hollbwysig. Ychwanegodd nad oes unrhyw adroddiadau ar gael mewn perthynas â Chartrefi Gofal ond mae wedi cael gwybod am achosion lle mae cleifion wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn ôl i'r cartrefi gofal heb gael prawf Covid-19. Roedd hyn wedi gwneud i staff a phreswylwyr eraill deimlo'n bryderus.

Gofynnodd y Cynghorydd Powell beth fyddai'r canlyniad pe bai'r gyfradd R yn uwch na 1 yn enwedig gyda dathliadau'r Nadolig o'n blaenau a pha gynlluniau sydd ar waith er mwyn ymdopi os ydyn ni'n cael ein gorlethu eto?

Tynnodd yr Arweinydd sylw at yr oedi o 10-14 diwrnod wrth adrodd am y ffigurau, ond rhoddodd sicrwydd i Aelodau y bydd modd gweld effaith y cyfnod atal byr o hyd wrth i'r data ddangos bod y gyfradd R yn is nag 1 gan fod nifer yr achosion positif wedi gostwng o 30% i 15%. Bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yn ystod cyfarfod nesaf y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r cynllun peilot ar raddfa fach gan gynnig tua 30,000 o brofion i nodi'r rheiny sy'n asymptomatig er mwyn atal lledaeniad y feirws. Esboniodd yr Arweinydd fod y Carfanau Olrhain Cysylltiadau'n gweithio'n dda iawn yn RhCT ac roedd y garfan wedi mynd i'r afael â dros 400 achos bob dydd yn ystod ton gyntaf y feirws. Cafodd Aelodau wybod y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud mewn perthynas â'r dull pedair gwlad yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Y Cynghorydd J James - Arweinydd Grŵp y Grŵp Ceidwadol**

Cododd y Cynghorydd James bryderon gan ei fod yn casglu gwybodaeth mewn perthynas â Covid-19, megis gwybodaeth am y canolfannau profi, gan y wasg ac roedd eisiau cadarnhad y byddai'r Cyngor yn rhannu gwybodaeth yn fuan.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Gwasanaethau Democrataidd yn rhannu negeseuon e-bost ag Aelodau bob dydd. Bydd manylion ynglŷn â'r cynllun peilot ar gyfer ardal Cwm Cynon isaf yn cael eu rhannu ag Aelodau unwaith y bydd y cynllun wedi'i gadarnhau, bydd Aelodau'n cael gwybodaeth ffeithiol. Atgoffodd Arweinydd y Cyngor fod y cynllun peilot yn cael ei ddarparu ar y cyd gan yr awdurdod lleol yma ac awdurdodau lleol eraill, yn ogystal â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a bydd manylion ynglŷn â'r cynllun yn cael eu rhannu cyn gynted ag sy'n bosibl.

**62 Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – CBS Rhondda Cynon Taf a Chronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.**

Cyflwynodd Mr M Jones, Swyddfa Archwilio Cymru ei gydweithiwr Mr Rees ac aeth ati i gyflwyno Archwiliad o ddatganiadau ariannol 2019-20 ar gyfer Cronfa Bensiwn RCT ac ar gyfer CBSRhCT, gan nodi bod y broses ar gyfer archwilio cyfrifon wedi cael ei gohirio oherwydd y pandemig Covid -19 . Talodd Mr Jones deyrnged i staff Adran Gyllid RhCT am eu cefnogaeth yn ystod y broses.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnig barn ddiamod gan yr Archwilydd Cyffredinol. Rhoddodd Mr Jones sicrwydd i'r aelodau nad yw sylwadau'r prisiwr mewn perthynas ag ansicrwydd materol a nodwyd yn natganiad RhCT ar ddiwedd y flwyddyn yn effeithio ar y farn gyffredinol. Er gwybodaeth, tynnodd Mr Jones sylw hefyd at y manylion yn Atodiad 3 ynghylch y
camfynegiannau wedi'u cywiro.

O ran Cronfa Bensiwn RCT, cadarnhaodd Mr Jones nad yw unrhyw gamfynegiannau wedi'u cywiro yn dangos ansawdd uchel y cyfrifon drafft.

**CYTUNWYD** y byddai'r Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

***

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol y Datganiad o Gyfrifon wedi'i ddiweddaru a therfynol i'r Cyngor ynghyd â llythyrau o gynrychiolaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. Nododd y Cyfarwyddwr fod yr amserlenni ar gyfer paratoi ac archwilio'r datganiadau wedi cael eu diwygio yn rhan o drafodaethau agos ag Archwilio Cymru o ganlyniad i'r pandemig ac ychwanegodd ei fod yn dyst i waith y garfan a staff ehangach y cyngor bod y gweithdrefnau rheolaeth ariannol a threfniadau rheoli sydd ar waith wedi'u cynnal.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y Pwyllgor Archwilio wedi trafod y cyfrifon (drafft) ym mis Gorffennaf a'u diweddaru ym mis Hydref 2020 yn unol â gofynion y
Mesur Llywodraeth Leol (paragraffau 11.1 ac 11.2).

Yn dilyn trafodaeth ac ar ôl cael ymateb i ymholiadau mewn perthynas â'r ansicrwydd materol, ffioedd ac asedau seilwaith,
**PENDERFYNWYD -**

1. Cymeradwyo a nodi Datganiad o Gyfrifon CBS Rhondda Cynon Taf (Atodiad 1), a'r Llythyr o Gynrychiolaeth cysylltiedig (Atodiad 2).

2. Cymeradwyo a nodi Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (Atodiad 3), a'r Llythyr o Gynrychiolaeth cysylltiedig (Atodiad 4).

3. Cymeradwyo a nodi safle alldro terfynol y Cyngor, sydd wedi'i archwilio, ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/2020 a balansau'r Cronfeydd Cyffredinol (paragraff 8.4); ac

4. Nodi trafodaethau a sylwadau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ar 12 Gorffennaf 2020 a 5 Hydref 2020, yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (paragraffau 11.1 ac 11.2).

**63 Ariannu Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif gan ddefnyddio amodau Benthyca Darbodus**

Gan gyfeirio at ei adroddiad, ceisiodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol gymeradwyaeth gan yr Aelodau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf gwerth £4.500miliwn ar gyfer estyniad yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr, sy'n cynnwys 4 ystafell ddosbarth a dosbarth Meithrin newydd ac i ddefnyddio grant Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif; Grant Gofal Plant Llywodraeth Cymru i ariannu'r prosiect ac i ddefnyddio pwerau'r Cyngor o dan y Cod Darbodus er mwyn ariannu cyfraniad y Cyngor.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD:**

1. Cytuno i gynnwys yr estyniad newydd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr yn y rhaglen gyfalaf, cyfanswm o £4.500miliwn.

2. Cytuno y caiff cost cyfalaf net y Cyngor o £3.410 miliwn ei ariannu trwy fenthyca, gan ddefnyddio pwerau'r Cyngor o dan y Cod Darbodus, gyda'r gost refeniw flynyddol o £0.052miliwn yn cael ei thalu o

arbedion sy'n deillio o hyn a chynlluniau ad-drefnu ysgolion blaenorol eraill.

**64 Adroddiad Canol Blwyddyn Cylch Rheoli'r Trysorlys 2020/21**

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Rheoli'r Trysorlys a Chod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol, roedd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol wedi rhannu gwybodaeth ag Aelodau ynglŷn â'r materion canlynol: -

- Gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod 6 mis cyntaf 2020/21; a
- Gwir Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys ar gyfer yr un cyfnod

Ar ôl trafod y mater, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

**65 Llifogydd yn RhCT yn 2020**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Cyfadran - Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen, sy'n rhoi'r cyfle i aelodau drafod gwybodaeth mewn perthynas â'r llifogydd a ddigwyddodd ledled y Fwrdeistref Sirol yn ystod 2020, yn ogystal â rhannu'r newyddion diweddaraf ag Aelodau mewn perthynas â'r gwaith y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni wrth ymateb i'r llifogydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y broses graffu yn sefyll ar wahân i'r prosesau sydd wedi'u nodi yn adran 5 a 6 yr adroddiad gan y bydd y Pwyllgor Craffu yn trafod cynnwys y sylwadau a'r wybodaeth sydd wedi'u cyflwyno gan bartneriaid ac aelodau lleol yn ystod sesiwn casglu tystiolaeth yn ei gyfarfod nesaf, cyn penderfynu ar sylwadau neu argymhellion annibynnol y bydd gofyn i'r Cabinet eu trafod.

Yn rhan o'i gyflwyniad Power Point, dangosodd y Rheolwr Materion Perygl Llifogydd, Dŵr a Thomenni ar gyfer Cyngor Rhondda Cynon Taf effaith Storm Dennis yn Chwefror 2020 ledled y Fwrdeistref Sirol yn ogystal ag ymateb a gwaith adfer dilynol y Cyngor. Roedd y cyflwyniad hefyd yn cynghori Aelodau ar waith cynnal a chadw mewn perthynas â thomenni, yn enwedig o ran tirlithriad Tylorstown yn Chwefror 2020.

Roedd y cyflwyniad yn nodi gwybodaeth am y materion allweddol canlynol;

- Storm Dennis;
- Paratoi ar gyfer Digwyddiadau;
- Stormydd mis Chwefror;
- Ymateb ac Adfer - tymor byr, tymor canolig a hir dymor
- Gwrthsefyll Llifogydd - Eiddo
- Cynnal a Chadw Tommenni

Yn dilyn y cyflwyniad, cododd Arweinwyr Grŵp ac Aelodau eraill nifer o ymholiadau mewn perthynas â'r adroddiad, y broses graffu a'r camau nesaf. Dywedodd yr Arweinydd y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu fis nesaf (mae hyn yn ar ben y Sesiwn Ymchwiliad Craffu), gan roi cyfle i drafod adroddiadau statudol Adran 19 y Cyngor a dod â'r ymchwiliadau

i ben. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod gan bob Aelod gyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig tu hwnt i'r terfyn amser, er mwyn nodi manylion ynglŷn â'u profiad unigol. I gloi, cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai adolygiad yr Uwch Garfan Rheoli yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Rhagfyr, lle bydd nifer o argymhellion yn cael eu trafod.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyflwyniad gan Swyddogion a'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad; a

2. Derbyn adroddiadau statudol Adran 19 mewn perthynas â'r ymchwiliadau y mae'r Cyngor yn eu cynnal mewn perthynas â llifogydd mis Chwefror, yn rhan o'i rôl fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn unol â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (FWMA) yn ystod cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol;

3. Nodwch: ym mis Rhagfyr, bydd y Cabinet yn trafod adroddiad sy'n nodi nifer o gamau gweithredu allweddol yn dilyn y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r gwaith a gafodd ei gyflawni, gan gynnwys adolygiadau'r swyddog mewnol a gwaith y pwyllgor craffu; a

4. Nodi gwaith craffu parhaus y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'r mater yma.

## 66 Rhybuddion o Gynigion

Trafod y Rhybudd o Gynnig isod sydd wedi'i gyflwyno yn enwau:
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol H.Fychan, E,Griffiths, P.Jarman, K.Morgan, D.Grehan, S.Rees Owen, M.Weaver, E.Webster, S.Evans, A, Chapman,G.Davies, J.Williams, A. Cox, J.Cullwick, J. Davies, E.Stephens, L. Jones

Digynsail. Dinistriol. Ysgytwol. Dyna'r tri gair a ddefnyddir amlaf mewn perthynas â'r llifogydd a darodd cynifer o gymunedau ledled RhCT eleni. Nid ni oedd yr unig gymunedau a gafodd eu heffeithio gan hyn, gyda golygfeydd tebyg i'w gweld ar hyd a lled Cymru.

Mae'r Cyngor yn nodi'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith adfer, ac amcangyfrifir bod angen o leiaf £500 miliwn arall yn ystod y degawd nesaf os yw Cymru am osgoi llifogydd sylweddol. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, bod llifogydd yn llawer mwy tebygol o ddigwydd yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod llawer o gwestiynau sydd gan ein preswylwyr ynglŷn â'r llifogydd dal ddim wedi'u hateb naw mis yn ddiweddarach, gyda rhai wedi goddef llifogydd pellach mor ddiweddar â mis Awst. Mae pobl, yn naturiol iawn, bellach yn bryderus bob amser mae achos o law trwm.

Er bod nifer o adroddiadau naill ai wedi'u cyhoeddi neu yn yr arfaeth, mae'r

Cyngor o'r farn ei bod hi'n amlwg eu bod yn gyfyngedig o ran eu cwmpas, a'u bod yn cael eu cynnal gan y sefydliadau dan sylw yn hytrach na chan asiantaethau annibynnol, allanol. Nid ydynt ychwaith yn mynd i'r afael â'r effaith ar iechyd meddwl a chorfforol preswylwyr, na'r effaith economaidd a chymdeithasol barhaol.

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r miloedd o breswylwyr a lofnododd ddeiseb ddiweddar gan y Senedd yn galw am gynnal ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd, a hynny er mwyn dod â'r holl adroddiadau at ei gilydd a chraffu arnyn nhw, yn ogystal â dwyn ynghyd unrhyw dystiolaeth a phrofiadau preswylwyr a busnesau. Dyma'r unig ffordd y mae modd i ni sicrhau atebion a chyfiawnder ar gyfer y preswylwyr a'r busnesau sydd wedi'u heffeithio.

Felly, mae'r Cyngor yn gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i alw am ymchwiliad annibynnol, gan nodi y bydd y Cyngor yn cymryd rhan yn agored ac yn dryloyw mewn proses o'r fath fel bod modd dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol a sicrhau buddsoddiad ar gyfer  mesurau atal llifogydd.

Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol 10.4.1 Gweithdrefn y Cyngor yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: L. M. Adams, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones,  L De- Vet, J. Edwards, J Elliott, S. Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. Hughes, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S Pickering, S. Powell, S. Powderhill, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a  R. Yeo.

Digynsail. Dinistriol. Ysgytwol. Dyna'r tri gair a ddefnyddir amlaf mewn perthynas â'r llifogydd a darodd cynifer o gymunedau ledled RhCT eleni. Nid ni oedd yr unig gymunedau a gafodd eu heffeithio gan hyn, gyda golygfeydd tebyg i'w gweld ar hyd a lled Cymru.

Mae'r Cyngor yn nodi'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith adfer, ac amcangyfrifir bod angen o leiaf £500 miliwn arall yn ystod y degawd nesaf os yw Cymru am osgoi llifogydd sylweddol. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, bod llifogydd yn llawer mwy tebygol o ddigwydd yn y dyfodol.

(~~{Dileu: Mae'r Cyngor yn cydnabod bod llawer o gwestiynau sydd gan ein preswylwyr ynglŷn â'r llifogydd dal ddim wedi'u hateb naw mis yn ddiweddarach~~), YCHWANEGU - Mae’r Cyngor yn cydnabod bod gan breswylwyr lawer o gwestiynau a'u bod am gael sicrwydd ynghylch cyflymder cynnydd gwaith, gyda rhai wedi goddef llifogydd pellach mor ddiweddar â mis Awst. Mae pobl, yn naturiol iawn, bellach yn bryderus bob amser mae achos o law trwm.

{Dileu: ~~Er bod nifer o adroddiadau naill ai wedi'u cyhoeddi neu yn yr arfaeth, mae'r Cyngor o'r farn ei bod hi'n amlwg eu bod yn gyfyngedig o ran eu cwmpas, a'u bod yn cael eu cynnal gan y sefydliadau dan sylw yn hytrach na chan asiantaethau annibynnol, allanol.  Nid ydynt ychwaith yn mynd i'r afael â'r effaith ar iechyd meddwl a chorfforol preswylwyr, na'r effaith economaidd a chymdeithasol barhaol.}~~

Mae'r Cyngor yn {newid 'cefnogi'r' i 'nodi'r'} miloedd o breswylwyr a lofnododd ddeiseb ddiweddar gan y Senedd yn galw am gynnal ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd, a hynny er mwyn dod â'r holl adroddiadau at ei gilydd a chraffu arnyn nhw, yn ogystal â dwyn ynghyd unrhyw dystiolaeth a phrofiadau preswylwyr a busnesau. {Dileu ~~Dyma'r unig ffordd y mae modd i ni sicrhau atebion a chyfiawnder ar gyfer y preswylwyr a'r busnesau sydd wedi'u heffeithio.~~}

Felly mae'r Cyngor yn gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i {Dileu ~~- i alw am ymchwiliad annibynnol~~} Ychwanegu - amlinellu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud gan y Cyngor wrth werthuso'r ymateb gan yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid (megis Cyfoeth Naturiol Cymru) i'r tywydd digynsail yma. Bydd hefyd yn trafod yr hyn y mae modd ei wneud yn wahanol i wella gwaith gweithio mewn partneriaeth, gwaith cynllunio ac ymateb pob asiantaeth gyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol, gan nodi y bydd y Cyngor yn Ychwanegu 'Parhau i' gyfrannu at broses o'r fath mewn modd agored a thryloyw, fel bod modd dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol a sicrhau buddsoddiad ar gyfer mesurau atal llifogydd.

Ychwanegu {bod y Cyngor yn nodi bod y Cabinet ac Uwch Swyddogion yn bwriadu cyflwyno adroddiad arall ym mis Rhagfyr gyda rhagor o argymhellion}.

**Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:**

Digynsail. Dinistriol. Ysgytwol. Dyna'r tri gair a ddefnyddir amlaf mewn perthynas â'r llifogydd a darodd cynifer o gymunedau ledled RhCT eleni. Nid ni oedd yr unig gymunedau a gafodd eu heffeithio gan hyn, gyda golygfeydd tebyg i'w gweld ar hyd a lled Cymru.

Mae'r Cyngor yn nodi'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith adfer, ac amcangyfrifir bod angen o leiaf £500 miliwn arall yn ystod y degawd nesaf os yw Cymru am osgoi llifogydd sylweddol. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, bod llifogydd yn llawer mwy tebygol o ddigwydd yn y dyfodol.

Mae’r Cyngor yn cydnabod bod gan breswylwyr lawer o gwestiynau a'u bod am gael sicrwydd ynghylch cyflymder cynnydd gwaith, gyda rhai wedi goddef llifogydd pellach mor ddiweddar â mis Awst. Mae pobl, yn naturiol iawn, bellach yn bryderus bob amser mae achos o law trwm.

Mae'r Cyngor yn nodi'r miloedd o breswylwyr a lofnododd ddeiseb ddiweddar gan y Senedd yn galw am gynnal ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd, a hynny er mwyn dod â'r holl adroddiadau at ei gilydd a chraffu arnyn nhw, yn ogystal â dwyn ynghyd unrhyw dystiolaeth a phrofiadau preswylwyr a busnesau.

Felly mae'r Cyngor yn gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i amlinellu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud gan y Cyngor wrth werthuso'r ymateb gan yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid (megis Cyfoeth Naturiol Cymru) i'r tywydd digynsail yma. Bydd hefyd yn trafod yr hyn y mae modd ei wneud yn wahanol i wella gwaith gweithio mewn partneriaeth, gwaith cynllunio ac ymateb pob asiantaeth gyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol, gan nodi y bydd y Cyngor yn parhau i gyfrannu at broses o'r fath mewn modd agored a thryloyw, fel bod modd dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol a sicrhau buddsoddiad ar gyfer mesurau atal llifogydd.

Mae'r Cyngor yn nodi bod y Cabinet ac Uwch Swyddogion yn bwriadu cyflwyno adroddiad arall ym mis Rhagfyr gyda rhagor o argymhellion.

**

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu'r diwygiad.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â chyfanswm y Cynghorwyr a oedd yn bresennol yn ôl eu grwpiau gwleidyddol: -

Grŵp Llafur 38
Grŵp Plaid Cymru 16
Grŵp Ceidwadol 1
Grŵp Annibynnol RhCT 5

Yn dilyn trafodaeth bellach mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor 12.7, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r cynnig gwreiddiol.

**

**PENDERFYNWYD** dod â’r cyfarfod i ben yn unol â Rheol 8 Gweithdrefn y Cyngor a symud yr eitem sy'n weddill ar yr agenda, eitem Agenda 11B, Rhybudd o Gynnig mewn perthynas â Chyfarpar Diogelu Personol i gyfarfod dilynol y Cyngor a fydd yn cael ei gynnal ar 16 Rhagfyr 2020.

(**Nodwch**: Cynigiwyd y rhybudd o gynnig canlynol gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman: Cynnig i atal rheolau sefydlog er mwyn parhau â'r cyfarfod y tu hwnt i dair awr er mwyn cael cyfle i drafod y Rhybudd o Gynnig olaf mewn perthynas â Chyfarpar Diogelu Personol).

**

Yn dilyn trafodaeth bellach mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor 12.7, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r rhybudd o gynnig wedi'i ddiwygio.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.14 pm**

**Cllr S Powderhill**
**Cadeirydd.**